

Arolygiad Dirybudd Urddas a Gofal Hanfodol, gan gynnwys Hapwiriad Glanweithdra

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Ysbyty'r Tywysog Siarl

Ward 3

Dyddiad yr arolygiad Mercher 5 Mawrth 2014

Cynnwys

Pennod	Rhif Tudalen
1. Rhagarweiniad	2
2. Methodoleg	4
3. Crynodeb	5
4. Canfyddiadau:	
4a. Profiad y Cleifion	7
4b. Darparu Hanfodion Gofal	9
4c. Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	13
4d. Ansawdd a Diogelwch	14
5. Glanweithdra	15
6. Y Camau Nesaf	17
Atodiad A – Cynllun Gwella	18

1. Rhagarweiniad

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) Arolygiad Urddas a Gofal Hanfodol dirybudd a hapwiriad glanweithdra ar 5 Mawrth 2014 yn ward 3 yn Ysbyty'r Tywysog Siarl, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf (CTUHB). Yn ystod yr arolygiad arsylwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol:

- Profiad y Cleifion
- Darparu Hanfodion Gofal
- Rheolaeth ac Arweinyddiaeth
- Ansawdd a Diogelwch.

Gweledigaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yw 'atal salwch, diogelu iechyd a hyrwyddo gwell iechyd drwy ddarparu gwasanaethau mor lleol ag y bo modd a lleihau'r angen, pan fo modd, i drin cleifion yn fewnol mewn ysbytai.' Mae gan y Bwrdd Iechyd Prifysgol y pum amcan strategol canlynol, sy'n deillio'n bennaf o'r Sefydliad Gwella Gofal Iechyd (IHI) ac sy'n cynnig fframwaith eglur ar gyfer ei gynllun. Yr amcanion hyn yw:

- Gwella ansawdd, diogelwch a phrofiad y cleifion.
- Amddiffyn a gwella iechyd y boblogaeth.
- Sicrhau bod y gwasanaethau yn hygyrch ac yn gynaliadwy i'r dyfodol.
- Gwella rheolaeth a sicrwydd.
- Lleihau cost gofal per capita, yn unol â'r adnoddau a roddir ar gael i'r Bwrdd Iechyd Prifysgol.

Darperir gwasanaethau aciwt, canolraddol, cymunedol ac iechyd meddwl gan rwydwaith o Glinigau Cymunedol, Canolfannau Iechyd ac Ysbytai Cymunedol, a gefnogir gan ddau Ysbyty Cyffredinol Dosbarth.

Rheolir y Gwasanaethau Clinigol drwy nifer o gyfarwyddiaethau ac ardaloedd sy'n atebol i Gyfarwyddwr Gweithredol. Arweinir y rhain gan Gyfarwyddwyr Clinigol, Rheolwyr Cyfarwyddiaeth a Phenaethiaid Nyrsio, ac y maent yn cwmpasu gofal aciwt, gofal sylfaenol a gwasanaethau cymunedol, gan

gynnwys Iechyd Meddwl a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS).

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn cynnwys pedair ardal – Cwm Cynon, Merthyr Tudful, Cymoedd Rhondda ac ardal Taf Trelái, ac yn gwasanaethu tua 289,400 o bobl.

Mae oddeutu 430 o welyau yn Ysbyty'r Tywysog Siarl, Merthyr Tudful, sy'n darparu gwasanaethau brys aciwt, gwasanaethau meddygol a llawfeddygol dewisol, Gofal Dwys, Gofal Coronaidd a gwasanaethau obstetreg dan arweiniad ymgynghorydd. Mae'r ysbyty'n cynnwys uned Ddamweiniau a Gofal Brys brysur ac Uned Gofal Arbennig i Fabanod, a darperir meddygaeth bediatrig i gleifion preswyl dan arweiniad ymgynghorydd. Darperir gwasanaethau is-ranbarthol genol-wynebol ac amrywiaeth o wasanaethau i gleifion allanol gan arbenigwyr mewnol ac ymwelwyr, ynghyd ag ystod eang o wasanaethau a chyfleusterau diagnostig.

2. Methodoleg Arolygu

Mae 'Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol' AGIC yn adolygu'r ffordd y mae urddas cleifion yn cael ei gynnal o fewn ward/uned/ Adran mewn ysbyty a'r gofal nyrsio elfennol sylfaeno a roddir i'r cleifion.¹ Rydym yn adolygu dogfennaeth a gwybodaeth o nifer o ffynonellau gan gynnwys:

- Gwybodaeth sydd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) hyd yma
- Siarad â chleifion a'u teuluoedd a chyfweld staff
- Trafod â'r Uwch Reolwyr o fewn yr Ymddiriedolaeth
- Archwilio sampl o gofnodion meddygol cleifion
- Craffu ar bolisiâu a gweithdrefnau sy'n tanategu gofal cleifion
- Arsylwi'n gyffredinol ar amgylchedd ac ymarfer y gofal.

Mae'r arolygiadau hyn gan AGIC yn canfod 'ciplun' o safonau'r gofal a roddir i gleifion ar wardiau/unedau/Adrannau ysbytai; a gall hynny weithiau ddynodi materion ehangach sy'n codi ynglŷn ag ansawdd a diogelwch gofal hanfodol ac urddas.

Ar gychwyn yr arolygiad cafwyd rhagdrifodaeth gyda'r tîm clinigol a gofynnwyd am gael gwybod bob amser am unrhyw gynnydd mewn gweithgarwch clinigol, er mwyn cadw cydbwysedd rhwng ateb gofynion yr arolygiad ar y naill law a diwallu anghenion y cleifion ar y llall.

Darparwyd trosolwg o'n prif ganfyddiadau a'n gofynion i gynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd yn y cyfarfod adborth a gynhaliwyd ar ddiwedd ein harolygiad. Ni chanfuwyd unrhyw faterion brys o ganlyniad i'n harolygiad, ond rhoddir manylion am ein canfyddiadau yn Atodiad A i'r adroddiad hwn.

¹ *Hanfodion Gofal*, Llywodraeth Cynulliad Cymru 2003

3. Crynodeb

Ar y cyfan gall cleifion fod yn hyderus bod y gwasanaeth ar Ward 3 yn cael ei redeg yn dda. Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn cael gofal da. Mae'r Ward yn darparu gofal a thriniaeth i gleifion sydd â'u hystod oedran yn eang, cyn ac ar ôl eu llawdriniaeth. Roedd y staff yn broffesiynol wrth eu gwaith, a gwelsom eu bod yn cyflawni eu dyletswyddau mewn ffordd ofalgar, gan sgwrsio'n gyfeillgar â'r cleifion a'u teuluoedd.

Yn ystod ein harolygiad gwelsom enghreifftiau o ganolbwyntio ar asesu gofal cleifion unigol a rheoli'r gofal hwnnw'n briodol. Ar wahanol adegau, cyn ac ar ôl llawdriniaeth, roedd anghenion gofal y cleifion yn amrywio yn ôl lefel eu dibyniaeth. Gwelsom arferion gofal a oedd yn darparu ar gyfer hynny, gan gynnwys monitro'r arsylwadau ôl-driniaethol a rheoli poen yn rhagweithiol.

Roedd canran fechan o gleifion hŷn ar y Ward rhai ohonynt yn anghofus oherwydd dementia.. Roedd rhai o'r staff wedi eu hyfforddi i ofalu am gleifion â oedd yn dioddef o'r cyflwr hwnnw. Gallai'r staff fanteisio hefyd ar gyngor gan Nyrs Arbenigol yn y maes hwnnw.

Roedd y staff yn barod yn gyson i helpu cleifion fwyta ac yfed, i ddefnyddio'r toiled ac adfer eu symudedd. Roedd y staff yn monitro ac yn cofnodi lefelau bwyd a hylif a gymerai'r cleifion ac yn achos cleifion ag arnynt angen mwy o amser a chymorth, yn monitro'n fanwl eu cymeriant o fwyd a'r diod.

Gwelsom nifer o enghreifftiau o arferion da nodedig. Roedd cynnwys y cofnodion gofal yn dda, yn ogystal â'r dull o werthuso effeithiolrwydd y gofal.

Rhoddid pwyslais cryf ar adferiad buan ac adsefydlu cleifion ar ôl eu llawdriniaeth, a rhoddid gwybodaeth fanwl i bob un am y trefniadau i'w rhyddhau.

Er gwaethaf yr arferion da hyn, nodwyd meysydd canlynol fel rhai lle y dylid gwella. Rhoddir manylion pellach yn atodiad A:

- Prinder hamdden / gweithgareddau i gleifion sy'n teimlo'n well yn ystod cyfnodau diweddar eu hadferiad.
- Yr oergell gyffuriau heb ei chloi. Er ei bod mewn storfa a oedd dan glo, gofynnwyd yn ystod yr arolygiad am ei chloi.
- Sŵn yn y manau gwaith yn tarfu ar rai cleifion yn ystod y nos.
- Anghysondeb o ran gwisgo bathodynau enwau eglur.
- Roedd rhai cleifion yn dymuno gweld sut y cynllunnid ac y cofnodid eu gofal.
- Byddai'n fuddiol trefnu rhaglen strwythuredig o hyfforddiant mewnol
- Ni chaniateid amser yn ychwanegol at y gofynion staffio i'r Brif Nyrs Ward Band 7.

Nodwyd gennym y canfyddiadau canlynol ynglŷn â Glanweithdra:

- Roedd un o'r ffaniau yn frwnt gan lwch.
- Eitemau wedi eu storio ar y llawr yn yr ystafelloedd storio.
- Llieiniau wedi eu storio ar lefel y llawr mewn coridor ond oddi ar y llawr ym mhob cwpwrdd bae.
- Rwber yn dod yn rhydd o'r sgrin o amgylch cawod.
- Lluch ar waelod troli nodiadau.
- Un sgip llieiniau yn llawn drwy gydol yr ymweliad arolygu.
- Nid oedd y tap synhwyro ym Mae 8 yn gweithio'n iawn.

4. Canfyddiadau

4a. Profiad y Cleifion

Er na chododd unrhyw bryderon a oedd yn hawlio sylw ar unwaith, canfuwyd un maes o dan y pennawd hwn lle'r oedd angen gwella, fel yr amlinellir ynn Atodiad A.

Yn ystod ein harolygiad gwelsom wasanaeth a oedd wedi ei drefnu'n dda. Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn cael gwybodaeth dda am eu gofal, eu triniaeth a'r trefniadau i'w trosglwyddo / rhyddhau. ac y gallent droi at unrhyw aelod o'r tîm staff ambroffesiynol heb deimlo'n anghyfyrrddus pe bai ganddynt gwestiynau neu bryderon ynglŷn â'u gofal.

Drwy gydol ein harolygiad clywsom y staff Nyrsio, y staff Meddygol a'r Therapyddion yn siarad â chleifion ac aelodau eraill o'r tîm Ward mewn ffordd broffesiynol a chwrtais. Yn y man gwaith sylwyd bod y staff meddygol a nyrsio yn trafod ymysg ei gilydd mewn ffordd breifat a synhwyrol, gan roi sylw dyladwy i natur gyfrinachol gwybodaeth a chofnodion y cleifion.

Roedd y staff wedi eu gwisgo yn unol â Chod Gwisg Cymru Gyfan ac freichnoeth islaw'r penelin yng nghyffiniau'r Ward. Sylwyd, fodd bynnag, nad oedd rhai o'r staff yn gwisgo bathodynnew enwau i esbonio'u rôl o fewn tîm y ward. Dywedodd cleifion wrthym y teimlent y ddiogel yng gofal y staff yn ystod y dydd a'r nos. Gwelsom hefyd fod staff yn ymateb yn brydlon i geisiadau am gymorth.

Gwelsom fod cleifion ym mhob grŵp oedran yn cael gwybodaeth ar lafar ac yn ysgrifenedig, ac ymddangosai fod yr wybodaeth honno'n eu bodloni. Roedd sgiliau addas gan y staff i ofalu am gleifion dryslyd ac anghofus, a rhoddid cymorth ychwanegol i gleifion o'r fath. Gwelwyd bod staff yn ofalgar a sensitif tuag at y cleifion a'u teuluoedd, ac yn ymddwyn yn broffesiynol tuag at aelodau eraill o'r staff.

Rhoddid pwyslais da ar adferiad buan ar ôl llawdriniaethau (ERAS). Roedd y ward yn gweithio yn unol ag egwyddorion ERAS ac wedi cwblhau gwaith yn unol â'r fenter gwella 1000 o Fywydau². Sylwyd bod Ffisiotherapi a Therapi Galwedigaethol yn cyfrannu'n ymarferol i adferiad pob claf ar ôl ei lawdriniaeth. Yn dilyn trafodaethau gyda'r staff, daethpwyd i'r casgliad bod yr holl weithwyr proffesiynol ar y ward yn cydweithio'n rhagorol fel tîm, ac yr oedd y dystiolaeth yn y cofnodion ôl-driniaethol a'r cynlluniau rhyddhau yn cadarnhau hynny.

Yng nghofnodion y cleifion gwelsom dystiolaeth fod rhyddhau cleifion yn cael ei reoli'n dda a'i gydgysylltu drwy gydol eu harhosiad, a thystiolaeth o gynllunio effeithiol ar gyfer rhyddhau ac o gyfathrebu rhwng yr ysbyty a staff cymunedol. Roedd y cleifion a holwyd yn gyfarwydd â'r cynlluniau ar gyfer eu rhyddhau ac yr oedd yn ymddangos bod rhan ganddynt mewn penderfyniadau ynghylch trosglwyddo a rhyddhau.

Lleolid y Ward mewn amgylchedd wedi ei foderneiddio, gyda chyfleusterau ymolchi a thoiledau digonol ar gyfer mannau gweithio, a chyfleusterau ensuite mewn ystafelloedd ymyl. Gwelsom fod safon y cynnal a chadw yn dda. Gwnaethom ymchwiliad manylach i'r arferion atal a rheoli heintiau; a rhestrir canfyddiadau'r ymchwiliad hwnnw yn Atodiad A.

Er gwaethaf yr arferion da uchod, nodwyd y maes canlynol fel un sydd i'w wella mewn perthynas â 'Phrofiad y Cleifion'. Manylir ar hyn yn Atodiad A:

- Cyfyngedig yw'r weithgareddau hamdden i gleifion sy'n gwella.

²Gwella 1000 o Fywydau yw'r cynllun gwella cenedlaethol, sy'n cefnogi sefydliadau ac unigolion er mwyn cyflenwi gofal iechyd diogelaf o'r safon uchaf i bobl Cymru.

4b. Hanfodion Gofal

Yn ystod yr arolygiad hwn nodwyd tri maes y mae'n ofynnol eu gwella. Rhoddir manylion o'r rhain yn Atodiad A.

Ar y cyfan roedd canfyddiadau ein harolygiad yn dangos bod y maes clinigol yn cyflawni'n dda o ran darparu'r Hanfodion Gofal. Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar eu gofal a bod y staff yn eu trin ag urddas a pharch.

Gwelsom dystiolaeth o drin cleifion gydag urddas a pharch, ac enghreifftiau o'r ymdrechion a wneir gan y tîm staff i sicrhau bod pobl yn cael cymaint o breifatrwydd ag y bo modd, wrth eu cynorthwyo â'u gofal personol, yn ystod archwiliadau ac wrth ddarparu gofal uniongyrchol ar ôl llawdriniaeth. Rhoddid sylw penodol i esmwythder cleifion ac i reoli poen. Gweithredid mecanwaith ar gyfer arsylwi ar gleifion yn rheolaidd; roedd gan gleifion swynyn wrth law i alw am gymorth; ac wrth holi cleifion ynglŷn â'u poen, defnyddiai'r staff offeryn cydnabyddedig i asesu a gwerthuso poen.

Cyfathrebu a Gwybodaeth

Gwelsom, a dywedwyd wrthym gan bob claf ond un, eu bod yn cael gwybodaeth dda am eu triniaeth, eu gofal beunyddiol a'r cynlluniau ar gyfer eu rhyddhau.

Wrth siarad ag un claf a gytunodd i'w sylwadau gael eu trafod gyda'r staff yn ystod yr arolygiad, daeth yn amlwg y byddai'n well ganddo fod wedi cael meddiant o'i gynlluniau gofal ac eglurhad manylach o'i asesiad a'i gynllun gofal. Roedd modd i'r staff roi i'r claf y manylion pellach a ddymunai, ac yr oedd y claf dan sylw wedi ei fodloni'n llwyr ar yr wybodaeth a gafodd yn ystod yr arolygiad. Dichon fod y gofyniad unigryw hwn gan un claf yn pwysleisio'r modd y mae rhai cleifion yn dymuno gweld eu cynlluniau gofal a chael eglurhad manylach gan y staff o'u dull o asesu, cynllunio a chofnodi'r gofal a roddir i gleifion unigol.

Dywedodd cleifion wrthym fod eu hanghenion gofal unigol yn cael eu diwallu. Dywedodd cleifion hefyd eu bod wedi cyfrannu i'r cynlluniau a wnaed ar gyfer eu rhyddhau.

Roedd y cofnodion meddygol i gyd yn cynnwys nodiadau gan wahanol aelodau o'r tîm amlddisgyblaethol (MDT). Gwelsom dystiolaeth fod anghenion y cleifion a'u statws o ran annibyniaeth yn cael eu hasesu'n drwyadl. Gwelsom dystiolaeth o baratoi cynlluniau gofal ar gyfer agweddau gofal hanfodol ac arbenigol. Er nad oedd y cynlluniau hyn mor gynhwysfawr ag y gallent fod yn achos pob claf, roedd eu safon yn dderbyniol yn gyffredinol, ac yn caniatáu eu datblygu ymhellach i gynnal dull o asesu, cynllunio a gwerthuso gofal mwy cydgysylltiedig eto.

Gwelsom staff y ward yn cynorthwyo cleifion i fwyta, yfed a symud, ac i ddefnyddio cyfleusterau toiled addas, o fewn amgylchedd y ward. Roedd yr holl ryngweithio a welwyd yn sensitif a gofalgar eu natur, a'r staff, wrth gyfathrebu a darparu gofal, yn rhoi sylw i breifatrwydd ac urddas y cleifion.

Parchu pobl

Yn ystod yr arolygiad dirybudd gwelsom lawer enghraifft o staff a chleifion yn rhyngweithio'n gyfeillgar ond yn barchus o'i gilydd. Mewn trafodaethau gyda'r cleifion clywsom sylwadau positif iawn ynghylch agwedd ac ymddygiad y staff.

Sicrhau Diogelwch

Dywedodd cleifion wrthym nad oeddynt wedi cael unrhyw anhawster i ddod o hyd i staff yn ystod y dydd neu'r nos, nac i gael ymateb prydlon i gais am gymorth wrth ddefnyddio'u swnwyr. Deallwyd gan Reolwr y Ward ac aelodau eraill o'r staff eu bod yn ystyried y lefelau staffio yn ddigonol. At hynny dywedodd Rheolwr y Ward wrthym fod modd iddynt gael staff ychwanegol pan oedd angen (e.e. pe bai lefelau aciwtedd cleifion yn codi).

Gwelsom fod systemau yn eu lle ar gyfer gofal cyn ac ar ôl llawdriniaeth. Roedd arsylwi ôl-driniaethol yn weithredol, wedi ei gofnodi'n dda, ac yn digwydd yn unol â chynlluniau gofal rhagnodedig y cleifion.

Gwelsom fod meddyginiaethau yn cael eu gweini yn unol ag arferion diogel.

Hyrwyddo Annibyniaeth

Gwelwyd bod y staff Therapi yn rhan hanfodol o'r tîm. Canfuwyd, mewn trafodaethau gyda'r Ffisiotherapyddion a'r Therapyddion Galwedigaethol eu bod yn teimlo'n rhan wirioneddol o'r tîm a bod y system sy'n cyfeirio cleifion am Ffisiotherapi a Therapi Galwedigaethol yn gweithio'n dda. Gwelwyd bod Adsefydlu yn cael sylw priodol.

Gwelsom staff yn annog cleifion i barhau mor annibynnol ag y bo modd o fewn amgylchedd yr ysbyty (e.e. wrth symud o un rhan o'r ward i un arall). Deallwyd wrth siarad â'r staff eu bod wedi eu hyfforddi i ddarparu gofal i bobl sydd â nam gwybyddol, ond weithiau, fodd bynnag, roedd rhestr aros am hyfforddiant o'r fath. Ambell dro, fodd bynnag, yr oedd rhestr aros am hyfforddiant. Mae arbenigwr gofal dementia ar gael i roi cyngor, pan fo angen, ar y ffordd fwyaf priodol i gynnal annibyniaeth unigolion.

Perthnasau

Gwelsom staff yn cymryd amser i ymateb i gleifion ac i wrando arnynt. Dywedodd cleifion wrthym hefyd y teimlent fod gan y staff amser i wrando arnynt a'u bod ar gael i drafod eu gofal pan fo angen.

Dywedodd cleifion wrthym fod modd i'w teuluoedd a'u ffrindiau ymweld â hwy ar unrhyw adeg resymol o'r dydd.

Gorffwys, Cysgu a Gweithgaredd

Cadarnhawyd wrth siarad â chleifion eu bod yn cael cyfle i orffwys yn ystod y dydd. At hynny dywedodd cleifion fod ganddynt ddigon o obenyddion a blancedi ac y gallent ofyn am ragor i fod yn gyffyrddus.

Sylwyd bod rhywfaint o sŵn yn dod o'r manau gwaith weithiau, a gall hyn fod yn broblem yn ystod y nos. Nid oedd y cleifion yn poeni'n ormodol am hyn ond

roedd rhai wedi cael profiad o sŵn yn ystod y nos. Trafodwyd hyn gyda'r staff, a rhoesant ddisgrifiad o'r camau a gymerant i leihau sŵn yn y nos.

Sicrhau Cyffyrddusrwydd, Lliniaru Poen

Dywedodd cleifion fod y staff yn ymateb yn brydlon i'w ceisiadau am liniaru poen. Roedd cleifion hefyd yn ymddangos yn gyffyrddus. Asesid statws y boen cyn ei lliniaru, a gwerthusid effeithiolrwydd y feddyginiaeth.

Hylendid Personol ac Ymddangosiad

Roedd y cleifion i gyd yn ymddangos yn lân a thrwsiadus. Deallwyd wrth siarad â chleifion eu bod yn cael cymorth naill i ymolchi wrth erchwyn y gwely neu gymorth i ddefnyddio'r en-suite (mewn ciwbiclau) neu'r cyfleusterau ymolchi wrth ymyl y manau gwaith. Sylwyd bod y staff yn rhoi sylw i breifatrwydd ac urddas wrth gyfathrebu â'r cleifion ac wrth ddarparu gofal.

Bwyta ac Yfed

Arsylwyd ar un pryd bwyd. Mae gan y Ward system sy'n neilltuo amseroedd penodol ar gyfer prydau bwyd, fel y gellir cynorthwyo cleifion i fwyta tra'n lleihau i'r eithaf unrhyw ymyrraeth â gweithgareddau eraill y Ward. Roedd y bwyd a ddarperid yn boeth ac yn flasus. Sylwyd bod staff Gwesteiwraig y Ward yn adnabod y cleifion oedd ag anghenion arbennig. Roedd y system arlwyo'n caniatáu addasu dognau i gyfateb â gofynion y cleifion.

Wrth drafod â'r cleifion, deallwyd bod modd iddynt gael diod boeth neu oer gyda'u pryd, a hefyd ar eu cais drwy gydol y dydd neu'r nos. Rhoddir diod boeth a byrbryd i bob u o'r cleifion cyn amser gwely.

Roedd siartiau monitro hylif, pan oedd eu hangen, wedi eu cwblhau'n gywir. Roedd siartiau bwyd, yn achos cleifion yr aseswyd bod angen monitro lefel eu cymeriant o fwyd, hefyd wedi eu llenwi'n gywir.

Iechyd a Hylendid y Geg

Asesid a chofnodid gofal y geg. Dywedodd cleifion wrthym y caent lanhau eu dannedd/dannedd gosod eu hunain mor rheolaidd ag y dymunent.

Rhwystro Briwiau Pwyso

Roedd archwiliad o gofnodion cleifion yn cadarnhau bod staff yn asesu ac yn cofnodi'n ddyddiol y statws a'r risg i gleifion o ran niwed i'r croen. Cedwid cofnod o'r gofal a roddid i fannau pwyso wrth erchwyn y gwely. Dywedodd y staff fod matresi aer a mathau eraill o gyfarpar lliniaru pwysedd ar gael iddynt. Sylwyd ar gleifion yn cael cymorth i symud ar adegau rheolaidd ar ôl cael llawdriniaeth. Rhoddid y pwyslais ar adsefydlu egniol.

Er gwaethaf yr arferion da uchod, nodwyd y tri maes canlynol fel rhai sydd i'w wella mewn perthynas â 'Hanfodion Gofal'. Manylir ar ein gofynion yn y cyswllt hwn yn atodiad A:

- Posibilrwydd o sŵn yn y manau gwaith yn ystod y nos
- Anghysondeb o ran gwisgo bathodynau enwau eglur.
- Gall rhai cleifion ddymuno gweld sut yn union y cynllunnir ac y cofnodir eu gofal.

4c. Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Yn ystod yr arolygiad hwn nodwyd dau faes y mae'n ofynnol eu gwella. Manylir ar y rhain yn Atodiad A.

Gwelsom fod y gwasanaeth ar Ward 3 wedi ei drefnu a'i reoli'n dda a bod pob aelod o'r tîm amlbroffesiynol yn rhoi sylw a gofal dyladwy i'r safonau proffesiynol.

Cawsom fod gan y Bwrdd Iechyd nifer o systemau wedi eu wedi eu sefydlu ar gyfer monitro profiad y cleifion o'r gofal, yr ymarfer clinigol, gweithio'n ddiogel, ac agweddau ehangach ar lywodraethu sefydliadol.

Mawn trafodaethau gyda'r staff, canfuwyd bod staff y Ward yn teimlo'u bod yn cael cefnogaeth dda gan yr uwch-reolwyr. Yn ystod yr arolygiad cawsom wybodaeth gryno am y Ward ac am anghenion y cleifion gan y Nyrs â Gofal.

Daethom i'r casgliad bod yr arweinyddiaeth yn effeithiol a gwelsom dystiolaeth fod y ward yn cael ei rhedeg mewn modd effeithlon a digynnwrf, lle'r oedd nifer o fecanweithiau rheolaidd yn darparu gofal ac yn sicrhau bod anghenion cleifion unigol yn cael eu diwallu. Dywedodd myfyrwyr wrthym eu bod yn cael cefnogaeth dda ar y ward ac yn ennill profiad da wrth ddysgu.

Roedd yn amlwg fod y tîm o Uwch-reolwyr Nyrsio yn rhoi cefnogaeth staff yn y maes clinigol. Gallai'r staff ddisgrifio'r prosesau cymorth a fyddai'n caniatáu iddynt gael staff ychwanegol pe bai'r lefelau aciwtedd/anghenion arbennig cleifion yn cynyddu'n sydyn.

Gwelsom fod y staff Domestig a staff Gwesteiwraig y Ward, a oedd yn rhan o'r tîm, yn gyfarwydd ag anghenion unigol y cleifion gan gynnwys unrhyw anghenion arbennig, a'u hanghenion o ran maeth a hylif.

Er gwaethaf yr arferion da uchod, nodwyd bod y meysydd canlynol ynglŷn â 'Rheolaeth ac Arweinyddiaeth' yn rhai sydd i'w gwella. Manylir ar ein gofynion mewn cyswllt â hyn yn atodiad A:

- Ni chaniateid amser yn ychwanegol at y gofynion staffio i'r Brif Nyrs Band 7 (Rheolwr y Ward)
- Nid ddarparwyd rhaglen strwythuredig o hyfforddiant mewnol ar gyfer staff y ward.

4d. Ansawdd a Diogelwch

Yn ystod yr arolygiad hwn nodwyd un maes y mae gofyn ei wella. Manylir ar hyn yn Atodiad A.

Gwelsom fod cofnodion cleifion yn cael eu rheoli'n ddiogel wrth eu defnyddio. Cedwid rhai cydrannau o'r cofnodion wrth welyau'r cleifion r mwyn cofnodi arsylwadau a chyfathrebu yn hwylus pan fo angen. Roedd y cydrannau hyn mewn ffolderi rhag bod gwybodaeth gyfrinachol yn hawdd i'w gweld gan bawb.

Gwelsom fod drws yr ystafell feddyginiaethau, sydd hefyd yn cynnwys y cypyrddau storio a'r oergell gyffuriau, wedi ei gau yn briodol yn ystod y cyfnod y buom ar y ward. Yn ystod ein harchwiliad o fewn yr ystafell storio meddyginiaeth, roedd pob cwpwrdd storio wedi ei gloi. Fodd bynnag, roedd clo yr oergell gyffuriau yn agored; tynnwyd sylw'r Nyrs â Gofal a'r Uwch Nyrs at hynny a gweithredwyd i ddatrys y mater. Mae'n arfer da cadw oergelloedd cyffuriau dan glo hyd yn oed pan fo'r oergelloedd mewn storfa dan glo. Rhoddir crynodeb o hyn yn Atodiad A i'r adroddiad hwn.

Er gwaethaf yr arfer da uchod, nodwyd y maes canlynol ynglŷn ag 'Ansawdd a Diogelwch' yn faes ar gyfer ei wella. Manylir ar ein gofynion ynglŷn â hyn yn Atodiad A:

- Roedd y clo ar yr oergell gyffuriau yn agored.

5. Glanweithdra

Yn ystod yr arolygiad nodwyd gennym naw o feysydd i'w gwella mewn cyswllt â'r hapwiriad Glanweithdra. Aethpwyd i'r afael â dau o'n canfyddiadau yn ystod yr arolygiad a manylir ar y saith arall yn Atodiad A.

Ar y cyfan, roedd amgylchedd y ward yn ymddangos yn lân ac yn ddymunol. Wrth holi'r cleifion, dangoswyd eu bod yn fodlon â'r glanweithdra ar y ward, ac yn gyffredinol roedd y man yn daclus fel y gallai cleifion a staff symud o gwmpas yn rhwydd ac yn ddiogel.

Gwelsom waith cynnal a chadw o safon dda ac yr oedd gwybodaeth y staff am weithdrefnau atal a rheoli heintiau Cymru gyfan (IP&C) yn cyrraedd safon dderbyniol.

Mewn trafodaethau gyda'r staff nyrsio a'r staff domestig, deallwyd bod amserlenni glanhau wedi eu paratoi, ac yn cael eu diweddarau'n rheolaidd. Roedd y staff yn wybodus ynghylch hylendid dwylo ac yn deall pryd y dylent ddefnyddio gel alcohol yn hytrach na sebon i sicrhau'r lefel orau o hylendid. Ar

sail ein harsylwadau achlysurol yn ystod yr arolygiad, ystyriwn fod yr arferion golchi dwylo yn dderbyniol.

Er gwaethaf yr arfer da uchod, nodwyd naw o feysydd ar gyfer eu gwella ynglŷn â 'Glanweithdra'. Rhoddwyd sylw i ddau o'r meysydd hynny yn ystod yr arolygiad, sef dau gomôd ac un stand diferydd yr oedd angen eu glanhau. Manylir yn atodiad A ar ein saith canfyddiad arall yn y cyswllt hwn:

- Roedd un o'r ffaniau yn frwnt gan llwch.
- Eitemau wedi eu storio ar y llawr yn yr ystafelloedd storio.
- Llieiniau wedi eu storio ar lefel y llawr mewn coridor ond oddi ar y llawr ym mhob cwpwrdd bae.
- Rwber yn dod yn rhydd o'r sgrin o amgylch cawod.
- Llwch ar waelod troli nodiadau.
- Un sgip llieiniau yn llawn drwy gydol yr ymweliad arolygu.
- Nid oedd y tap synhwyro ym Mae 8 yn gweithio'n iawn.

6. Y Camau Nesaf

Gofynnir i'r Bwrdd Iechyd Iunio Cynllun Gwella (Atodiad A) i ymateb i ganfyddiadau allweddol yr arolygiad a chyflwyno ei Gynllun Gwella i AGIC o fewn pythefnos ar ôl cyhoeddi'r adroddiad hwn,

Dylai Cynllun Gwella'r Bwrdd Iechyd nodi'n eglur pryd a sut y rhoddir sylw i'r canfyddiadau a restrwyd yn ward 3 yn Ysbyty'r Tywysog Siarl, gan gynnwys terfynau amser. Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau nad yw canfyddiadau'r arolygiad hwn yn rhai systemig, sy'n bodoli yn adrannau/ unedau eraill y Bwrdd Iechyd.

Unwaith y cytunir ar Gynllun Gwella'r Bwrdd Iechyd, caiff ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a'i werthuso fel rhan o'r broses barhaus o arolygu Urddas a Gofal Hanfodol.

Urddas a Gofal Hanfodol: Cynllun Gwella

Atodiad A

Ysbyty'r Tywysog Siarl

Ward 3: 5 Mawrth 2014

Cyf.	Canfyddiad	Gofyniad	Cam y Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
4a. Profiad y Cleifion					
4a.1	Ar gyfer cleifion a oedd yn teimlo'n well neu yng nghyfnodau diweddar eu hadferiad ar ôl llawdriniaeth nodwyd gennym nad oedd ond ychydig o weithgaredd hamdden.	Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried rhoi rhagor o weithgareddau ar gael yn y manau dydd llawdriniaeth i'r cleifion hynny sy'n teimlo'n well ac yn gallu cymryd rhan ynddynt.			
4b. Hanfodion Gofal					
4b.1	Sŵn yn bosibl yn y manau gwaith dros y nos: Rhai cleifion yn dioddef sŵn yn y manau gwaith yn ystod y nos.	Dylai'r Bwrdd Iechyd edrych ar bob dull o leihau sŵn anochel ym manau gwaith y cleifion yn ystod y nos.			
4b.2	Gwisgo bathodynau enwau eglur yn	Rhaid i'r Bwrdd Iechyd			

	anghyson.	sicrhau bod staff yn gwisgo bathodynau enwau eglur er mwyn eu hadnabod.			
4b.3	Gall rhai cleifion fod yn dymuno gweld sut y cynllunnir ac y cofnodir eu gofal.	Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried rhannu cynlluniau gofal ymhellach â'r cleifion, er mwyn sicrhau bod y cleifion i gyd yn hollol ymwybodol o sut y cynllunnir ac y cofnodir eu gofal.			
4c. Rheolaeth ac Arweinyddiaeth					
4c.1	Nid oedd gan Brif Nyrs Band 7 (Rheolwr Ward) amser ychwanegol, er ar ddiwrnod yr arolygiad cawsom fod y Ward yn cael ei rheoli a'i harwain yn dda. Fodd bynnag, byddai'n fanteisiol ystyried amser ychwanegol i Reolwr y Ward.	Dylai'r Bwrdd Iechyd ystyried sut i gynnwys amser ychwanegol i'r brif nyrs yn amserlen staffio y ward.			
4c.2	Byddai rhaglen hyfforddi fewnol, mwy strwythurol o fantais i'r Ward gan fod y	Dylai'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod y staff i gyd yn			

	staff i'w gweld mewn ciw am yr hyfforddiant a ddarperir ar gyfer yr holl Fwrdd Iechyd.	cael hyfforddiant yn brydlon.			
4d. Ansawdd a Diogelwch					
4d.1	Er bod yr oergell gyffuriau mewn storfa cyffuriau a oedd dan glo, cafwyd bod clo yr oergell yn agored. Roedd yr ystafell a oedd yn cynnwys yr oergell gyffuriau wedi ei chau yn gyson â chlo digidol yn ystod yr arolygiad, a rhaid oedd inni ofyn am gael mynediad i'r ystafell er mwyn ei harchwilio. Rhoddwyd gwybod i'r Nyrs â Gofal ac i'r Brif Nyrs, a rhoddwyd sylw i hyn yn ystod yr arolygiad.	Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau ei fod yn dilyn Polisi Rheoli Meddyginiaethau Cymru Gyfan.			
5. Glanweithdra					
5.1	Rhestrwyd saith gofyniad mewn cyswllt â'r archwiliad glanweithdra: <ul style="list-style-type: none"> ▪ Un ffan yn fudr gan lwch. ▪ Eitemau wedi eu storio ar y llawr mewn ystafelloedd storio. ▪ Llieiniau wedi eu storio ar lefel y 	Rhaid i'r Bwrdd Iechyd sicrhau bod gweithdrefnau Atal a Rheoli Heintiau Cymru Gyfan yn cael eu dilyn yn gywir.			

	<p>llawr mewn cwpwrdd coridor ond wedi eu storio oddi ar y llawr ym mhob cwpwrdd yn y manau gwaith.</p> <ul style="list-style-type: none">▪ Rwber yn dod i ffwrdd o sgrin gawod.▪ Lluch ar waelod troli nodiadau.▪ Un sgip ddillad yn llawn drwy gydol amser yr arolygiad.▪ Tap sensor ym Mae 8 ddim yn gweithio yn iawn.				
--	--	--	--	--	--